YSTADEGAU, DOGFENNU

# Absenoldebau o ysgolion cynradd: Medi 2022 i Awst 2023

Data presenoldeb ac absenoldeb mewn ysgolion cynradd a chanol a gynhelir yn Gymraeg ar gyfer disgyblion 5 i 10 oed yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 7 Chwefror 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 27 Mawrth 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cyflwyniad

Prif bwyntiau

Absenoldeb cyffredinol

Absenoldeb yn ôl grŵp blwyddyn

Absenoldeb yn ôl Prydau Ysgol am Ddim (PYD)

Absenoldeb yn ôl nodweddion pellach

Absennol yn gyson

Absennol yn gyson yn ôl Prydau Ysgol am Ddim

Absennol yn gyson yn ôl grŵp blwyddyn a phrydau ysgol am ddim

Absennol yn gyson yn ôl nodweddion pellach

Gwybodaeth ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

> Mae'r data wedi'u diwygio oherwydd ychwanegu un ysgol gynradd. Mae'r tueddiadau a'r canlyniadau cyffredinol yn aros yr un fath. Mae mwyafrif y gwerthoedd wedi newid o lai na 0.001 pwynt canran ac felly maent yn ymddangos yr un peth pan ddangosir i un lle degol yn yr adroddiad hwn.

# Cyflwyniad

**Casglwyd y set ddata blynyddol hon ddiwethaf yn 2018/19 a'i chyhoeddi diwethaf ym mis Awst 2019**. Cafodd y gwaith o gasglu'r data hwn ei atal ar ddechrau pandemig y coronafeirws (COVID-19) ym mis Mawrth 2020 ac nid oes data ar gael ar gyfer blynyddoedd ysgol 2019/20, 2020/21 a 2021/22.

Ers mis Medi 2020 rydym wedi bod yn casglu ac yn cyhoeddi **data presenoldeb dyddiol** gan ysgolion. Caiff y data hwn ei dynnu'n uniongyrchol o **Systemau Gwybodaeth Rheoli Ysgolion (MIS)** unwaith yr wythnos. Cesglir y data hwn fel gwybodaeth reoli ac nid yw'n cael ei ddilysu na'i gytuno gydag ysgolion neu awdurdodau lleol. Felly, nid oes ganddo'r un lefel o sicrwydd ansawdd â'r data presenoldeb blynyddol a gynhwysir yn y datganiad hwn. Mae data wythnosol a blynyddol y ddau ar gael ar gyfer blwyddyn ysgol 2022/23, ond am y rhesymau uchod nid oes modd cymharu'n llwyr.

I gael rhagor o wybodaeth am y gwahanol ffynonellau swyddogol data presenoldeb a chyngor ar ba un dylid eu defnyddio a phryd, gweler yr adran **Gwybodaeth Ansawdd a Methodoleg.**

Mae adnabod ac atal absenoldebau yn gynnar yn hanfodol a mae absenoldeb yn aml yn symptom o broblem sylfaenol. Y cynharaf y gall ysgolion ei adnabod, y cynharaf y gallant gefnogi'r dysgwr a sicrhau eu bod yn dod i'r ysgol. I gefnogi ysgolion yn hyn, mae **Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi newid i'r diffiniad**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**ystadegol o absenoldeb parhaus** o golli 20% i 10% o sesiynau.
Mae **canllawiau newydd ar wella presenoldeb** mewn ysgolion hefyd wedi'u rhyddhau. Byddwn yn cyhoeddi data ar y sail hon yn flynyddol fel rhan o'r datganiad ystadegol hwn ac ar Fy Ysgol Leol. ar y sail hon yn flynyddol fel rhan o'r datganiad ystadegol hwn ac ar Fy Ysgol Leol.


# Prif bwyntiau

- Mae canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd gan ddisgyblion oed ysgol gynradd wedi cynyddu i 8.5% rhwng 2018/19 a 2022/23.
- Collodd disgyblion oed ysgol gynradd sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim (PYD) 12.9% o sesiynau hanner diwrnod yn 2022/23, tra bod disgyblion oedran ysgol gynradd nad ydynt yn gymwys i gael PYD wedi colli 7.1% o sesiynau hanner diwrnod.
- Gan ddefnyddio'r trothwy 10%, mae canran y disgyblion oed ysgol gynradd a oedd yn absennol yn gyson wedi dyblu i 28.9% rhwng 2022/23 a 2018/19.
- Gan ddefnyddio'r trothwy 10%, roedd 51.7% o ddisgyblion oed ysgol gynradd sy'n gymwys i gael PYD yn absennol yn gyson yn 2022/23, o'i gymharu â 22.4% o ddisgyblion and ydynt yn gymwys am PYD.
- Roedd 32.4% o ddisgyblion blwyddyn 1 yn absennol yn gyson, o'i gymharu â 10.2% o ddisgyblion blwyddyn 3, yn 2022/23.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Absenoldeb cyffredinol

## Ffigur 1: Canran y sesiynau hanner diwrnod yn absennol o'r ysgol gan ddisgyblion oed ysgol gynradd, 2013/14 i 2022/23 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 1: Siart llinell sy'n dangos absenoldeb rhwng 2013/14 a 2022/23. Dangosir absenoldeb, absenoldeb awdurdodedig ac absenoldeb heb awdurdod. Bu cynnydd yn absenoldeb cyffredinol rhwng 2018/19 a 2022/23 yn dilyn pandemig y COVID-19.

Ffynhonnell: Casgliad Data Presenoldeb: Gynradd 2022/23

[Nodyn 1] Nid oes data yn y casgliad hwn ar gyfer y blynyddoedd 2019/20, 2020/21, 2021/22. Mae'r blynyddoedd lle mae data yn cael eu nodi gan y marciau cylch ar y llinellau.



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Absenoldeb yn ôl grŵp blwyddyn

## Ffigur 2: Canran y sesiynau hanner diwrnod o absenoldeb yn ôl grŵp blwyddyn rhwng 2018/19 a 2022/23




Disgrifiad o Ffigur 2: Cyfres o fariau wedi'u pentyrru sy'n dangos cynnydd sydyn mewn absenoldeb ar draws pob grŵp blwyddyn yn dilyn pandemig y COVID-19. Mae gan ddisgyblion

Blwyddyn 1 yr absenoldeb uchaf yn 2018/19 a 2022/23 a'r cynnydd mwyaf rhwng y ddwy flynedd hynny.

Ffynhonnell: Casgliad Data Presenoldeb: Gynradd 2022/23


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Absenoldeb yn ôl Prydau Ysgol am Ddim (PYD)

Mae disgyblion yn gymwys i gael **prydau ysgol am ddim** os yw eu rhieni neu warcheidwaid yn derbyn budd-daliadau prawf modd penodol neu daliadau cymorth

Bu newidiadau sylweddol yn ddiweddar yn y ddarpariaeth PYD yng Nghymru fel rhan o gyflwyno Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion cynradd. I gael rhagor o fanylion, gweler yr adran **Gwybodaeth Ansawdd a Methodoleg**.

## Ffigur 3: Canran y sesiynau hanner diwrnod o absenoldeb yn ôl cymhwysedd PYD rhwng 2018/19 a 2022/23




Disgrifiad o Ffigur 3: Bariau wedi'u pentyrru'n dangos cynnydd sydyn mewn absenoldeb i ddisgyblion sy'n gymwys ac ddim yn gwmwys am PYD yn dilyn pandemig y COVID-19. Mae'r absenoldeb cyffredinol ar gyfer y ddau grŵp wedi cynyddu rhwng 2018/19, fodd bynnag, mae gan ddisgyblion sy’n gymwys am PYD gyfran uwch o absenoldeb heb awdurdod.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ffynhonnell: Casgliad Data Presenoldeb: Gynradd 2022/23

Mae Ffigur 3 yn dangos bod disgyblion sy'n gymwys ac ddim yn gwmwys am PYD wedi gweld eu habsenoldeb cyffredinol yn cynyddu rhwng 2018/19 a 2022/23. Fodd bynnag dim ond disgyblion sy'n gymwys am PYD sydd wedi gweld cynnydd mewn absenoldeb heb awdurdod fel cyfran o'u habsenoldeb cyffredinol:

- 22.9% i 22.1% o'r holl absenoldebau ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys am PYD
- 32.5% to 34.3% o'r holl absenoldebau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am PYD


## Cymwys am PYD a grŵp blwyddyn

Ar gyfer disgyblion oedran ysgol uwchradd, dangosodd data a gyhoeddiwyd ar **data a gyhoeddwyd ar 27 Medi 2023 f**od y bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys ac ddim yn gymwys am PYDd yn wahanol ar draws grwpiau blwyddyn.

Ar gyfer disgyblion oed ysgol gynradd, nid yw'n ymddangos bod patrwm amlwg yn y bwlch pwynt canran rhwng disgyblion sy'n gymwys ac ddim yn gwmwys am PYD ar draws grwpiau blwyddyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 4: Bwlch pwynt canran rhwng canrannau'r sesiynau hanner diwrnod o absenoldeb disgyblion sy'n gymwys ac and ydynt yn gymwys am PYD yn ôl grŵp blwyddyn rhwng 2018/19 a 2022/23




Disgrifiad o Ffigur 4: Siart bar yn dangos fod dim perthynas yn y bwlch absenoldeb rhwng disgyblion sy'n gymwys a ddim yn gymwys am PYD fesul grŵp blwyddyn.

Ffynhonnell: Casgliad Data Presenoldeb: Gynradd 2022/23

Mae'r bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys a ddim yn gymwys am PYD wedi dyblu oddeutu ar draws pob grŵp blwyddyn rhwng 2018/19 a 2022/23. Rhwng 2013/14 a 2018/19 roedd y bwlch yn gyson rhwng 2.4 a 3.3 pwynt canran.

Dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r wybodaeth hon. Nid yw o reidrwydd yn wir, ar gyfer grŵp o ddisgyblion sy'n symud ymlaen trwy grwpiau blwyddyn yn y dyfodol, y bydd eu bwlch PYD yn ehangu i'r radd uchod.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Absenoldeb yn ôl nodweddion pellach

## Absenoldeb yn ôl rhyw

Yn 2022/23 collodd disgyblion benywaidd 8.3% o sesiynau hanner diwrnod ar gyfartaledd a chollodd disgyblion gwrywaidd 8.7% o sesiynau hanner diwrnod ar gyfartaledd.

## Absenoldeb yn ôl cefndir ethnig

Mae pob grŵp ethnig wedi gweld cynnydd mewn absenoldeb rhwng 2018/19 a 2022/23.

Yn 2022/23 disgyblion sy'n nodi eu bod yn Deithwyr sydd â'r gyfradd uchaf o absenoldeb, yn absennol am 28.3% o sesiynau a disgyblion sy'n nodi fel Tsieineaidd neu Brydain Tsieineaidd y gyfradd isaf o absenoldeb gyda 4.7% o sesiynau.

## Absenoldeb yn ôl Anghenion Addysgol Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol (AAA/ADY)

Bu cynnydd mewn absenoldeb rhwng 2018/19 a 2022/23 ar gyfer disgyblion â phob lefel wahanol o ddarpariaeth AAA/ADY. Yn 2022/23 collodd disgyblion gyda darpariaeth AAA/ADY 11.1% o sesiynau hanner diwrnod o'i gymharu a 8.0% (r) ar gyfer dusgyblion heb darpariaeth AAA/ADY.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Absennol yn gyson

Nid yw'n ofynnol i bob disgybl fod yn yr ysgol ar gyfer yr un nifer o sesiynau. Cau ysgolion, symud ysgol, diwrnodau HMS, ac ati... yn achosion lle nad oes angen i ddisgybl fynychu'r ysgol o bosibl, tra bod disgyblion eraill yn dal i fod yn bresennol.

Yn hanesyddol, diffinnir absenoldeb cyson fel absenoldeb am 20% o'r nifer fwyaf cyffredin o sesiynau gofynnol. Felly, os yw'n ofynnol i'r rhan fwyaf o ddisgyblion fod yn yr ysgol am 300 sesiwn hanner diwrnod yn y flwyddyn, y trothwy ar gyfer absenoldeb cyson yw 60 sesiwn. Nid oes angen i'r sesiynau hyn fod yn barhaus er mwyn i ddisgybl gael ei ystyried yn absennol yn gyson.

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi **newid y trothwy swyddogol ar gyfer absenoldeb parhaus** i 10% o’r nifer mwyaf cyffredin o sesiynau gofynnol.

Ar gyfer ysgolion cynradd, y trothwy ar gyfer absenoldeb parhaus o 10% yn 2022/23 yw 37 sesiwn.

Roedd y cyhoeddiad diweddaraf ar gyfer Absenoldeb Uwchradd yn defnyddio'r trothwy o 20%, felly nid yw'r ffigurau yn y datganiad hwnnw'n gymharol i'r rhai sydd yma, oni bai eu bod wedi'u nodi'n benodol.


Mae'r ffigurau absenoldeb parhaus yn y datganiad hwn yn defnyddio'r trothwy 10% oni bai y nodir yn benodol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 5: Canran y disgyblion oedran ysgol gynradd yn absennol yn gyson (trothwy 10%), 2013/14 i 2022/23 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 5: Siart llinell yn dangos bod canran y disgyblion oedran ysgol gynradd sy'n absennol yn gyson (trothwy 10%) wedi aros rhwng 11.8% a 13.0% rhwng 2013/14 a 2018/19. Yn dilyn pandemig y Coronafeirws, mae absenoldeb cyson (trothwy 10%) wedi dyblu rhwng 2018/19 a 2022/23 ac mae'r ganran bellach yn 28.9%.

Ffynhonnell: Casgliad Data Presenoldeb: Gynradd 2022/23

[Nodyn 1] Nid oes data yn y casgliad hwn ar gyfer y blynyddoedd 2019/20, 2020/21, 2021/22. Mae'r blynyddoedd lle mae data yn cael eu nodi gan y marciau cylch ar y llinellau.


## Ffigur 6: Canran y disgyblion oedran ysgol gynradd yn absennol yn gyson (trothwy 20%), 2013/14 i 2022/23

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 6: Siart llinell yn dangos bod canran y disgyblion oedran ysgol gynradd sy'n absennol yn gyson (trothwy 20%) wedi aros rhwng 1.5% a 1.8% rhwng 2013/14 a 2018/19. Yn dilyn pandemig y Coronafeirws, mae absenoldeb cyson (trothwy 20%) wedi mwy na threblu rhwng 2018/19 a 2022/23 ac mae'r ganran bellach yn 6.7%.

Ffynhonnell: Casgliad Data Presenoldeb: Gynradd 2022/23

[Nodyn 1] Nid oes data yn y casgliad hwn ar gyfer y blynyddoedd 2019/20, 2020/21, 2021/22. Mae'r blynyddoedd lle mae data yn cael eu nodi gan y marciau cylch ar y llinellau.

## Absennol yn gyson yn ôl grŵp blwyddyn


Mae'r holl ffigurau canlynol yn defnyddio'r trothwy o 10% ar gyfer absenoldeb parhaus.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 7: Canran y disgyblion yn absennol yn gyson yn ôl grŵp blwyddyn, 2018/19 a 2022/23




Disgrifiad o Ffigur 7: Siart bar sy'n dangos fod canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson yn ôl grŵp blwyddyn rhwng 2018/19 a 2022/23 wedi mwy na dyblu yn y rhan fwyaf o achosion.

Ffynhonnell: Casgliad Data Presenoldeb: Gynradd 2022/23

Rhwng 2013/14 a 2018/19 nid oedd yr ystod o absenoldeb cyson rhwng grwpiau blwyddyn yn fwy na 2.8%, o'i gymharu â dros 4.9% yn 2022/23.

Mae gan ddisgyblion Blwyddyn 1 y cyfraddau uchaf o absenoldeb cyson, gyda 32.4% o ddisgyblion yn absennol yn gyson yn ystod 2022/23. Ar 2.3 gwaith ei chanran 2018/19, Blwyddyn 3 sydd â'r cynnydd cymharol uchaf mewn absenoldeb cyson yn dilyn pandemig y COVID-19. Blwyddyn 3 sydd â'r gyfradd isaf o absenoldeb cyson yn ystod 2022/23, gyda 27.4% o ddisgyblion yn absennol yn gyson.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Absennol yn gyson yn ôl Prydau Ysgol am Ddim

Yn 2022/23 canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson sy'n gymwys am PYD yw'r uchaf ers i'r casgliad hwn ddechrau. Yn 2022/23 mae'r bwlch rhwng absenoldeb cyson disgyblion sy'n gymwys am PYD ac nad ydynt yn gymwys am PYD hefyd yr uchaf ers i'r casgliad hwn ddechrau, sef 29.3 pwynt canran.

### Ffigur 8: Canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson yn ôl PYD, 2018/19 a 2022/23




Disgrifiad o Ffigur 8: Mae siart bar sy'n dangos fod canran yr absenoldeb cyson bron wedi dyblu ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am PYD a mwy na dyblu ar gyfer disgyblion and ydynt yn gymwys am PYD rhwng 2018/19 a 2022/23.

Ffynhonnell: Casgliad Data Presenoldeb: Gynradd 2022/23

Mae'r cynnydd cymesur o absenoldeb cyson disgyblion and ydynt yn gymwys am PYD yn uwch na'r hyn sy'n cyfateb i ddisgyblion cymwys. Fodd bynnag, mae canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson sy'n gymwys am PYD 2.3 gwaith yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybodaeth am **hawlfraint**.

uwch na'r hyn sy'n cyfateb i ddisgyblion nad ydynt yn gymwys am PYD.

## Absennol yn gyson yn ôl grŵp blwyddyn a phrydau ysgol am ddim

Yn yr adran hon rydym yn siarad am y bwlch absenoldeb cyson PYD. Rydym yn cyfrifo'r bwlch drwy dynnu canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson nad ydynt yn gymwys am PYD o'r hyn sy'n cyfateb i ddisgyblion sy'n gymwys am PYD.

### Ffigur 9: Bwlch PYD yng nghanran y disgyblion sy'n absennol yn gyson, yn ôl grŵp blwyddyn, 2018/19 a 2022/23




Disgrifiad o Ffigur 9: Siart bar yn dangos y bwlch mewn absenoldeb parhaus rhwng disgyblion sy’n gymwys ac ddim yn gymwys am PYD ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Nid oes patrwm clir yn 2018/19 na 2022/23.

Ffynhonnell: Casgliad Data Presenoldeb: Gynradd 2022/23


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae'r bwlch PYD ar gyfer pob grŵp blwyddyn wedi bron dyblu rhwng 2018/19 a 2022/23. Mae'r bwlch mwyaf ar gyfer disgyblion blwyddyn 1 gyda 30.0 pwynt canran.

# Absennol yn gyson yn ôl nodweddion pellach

## Absennol yn gyson yn ôl rhyw

Gwelwyd cynnydd mewn absenoldeb cyson ymhlith disgyblion y ddau ryw ers pandemig yCOVID-19.

Rhwng 2018/19 a 2022/23, mae canran y disgyblion a oedd yn absennol yn gyson wedi codi o:

- 12.6% i 28.4% o ddisgyblion oed ysgol gynradd fenywaidd
- 13.3% i 29.5% o ddisgyblion oedran ysgol gynradd wrywaidd.

## Absennol yn gyson yn ôl cefndir ethnig

Gwelwyd cynnydd mewn absenoldeb cyson ymhlith disgyblion o bob cefndir ethnig ers pandemig y COVID-19.

Yn 2022/23 y cefndir ethnig gyda'r canran isaf o absenoldeb cyson oedd Tsieineaidd neu Brydeinig Tsieineaidd (sef 9.8%) a'r cefndiroedd ethnig â'r ganran uchaf o absenoldeb cyson oedd Theithwyr (sef 83.6).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Absennol yn gyson yn ôl Anghenion Addysgol Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol (AAA/ADY)

Bu cynnydd mewn absenoldeb parhaus rhwng 2018/19 a 2022/23 ar gyfer disgyblion â phob lefel wahanol o ddarpariaeth AAA/ADY. Yn 2022/23 roedd 40.9% o ddisgyblion oed ysgol gynradd gyda darpariaeth AAA/ADY yn absennol yn barhaus o gymharu â 27.4% heb ddarpariaeth AAA/ADY.

# Gwybodaeth ansawdd a methodoleg

## Diffiniadau

### Ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol

Ysgolion a gynhelir gan yr awdurdodau lleol. Bydd yr awdurdodau'n talu eu costau'n rhannol o drethi’r cyngor ac yn rhannol o grantiau cyffredinol gan Lywodraeth Cymru.

### Ysgolion cyfrwng Cymraeg

Mae Ysgolion cynradd yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, Dwy Ffrwd a Throsiannol. Mae ysgolion Canol ac Gynradd yn cynnwys Cyfrwng Cymraeg. Am fwy o wybodaeth, gwelir y nodiadau canllaw -nodiadau canllaw.

### Ysgolion annibynnol

Ysgolion sy'n codi ffioedd ac a all gael eu hariannu hefyd gan unigolion,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cwmnïau neu sefydliadau elusennol. Rhaid i bob ysgol annibynnol yng Nghymru gofrestru gyda Llywodraeth Cymru.

### Ysgolion meithrin

Dan 5 oed.

### Ysgolion cynradd

3/4 i 10 oed.

### Ysgolion canol

3/4 i 16/18 oed.

### Ysgolion gynradd

11 i 16/18 oed.

### Ysgolion arbennig

Ysgolion arbennig, rhai dydd a rhai preswyl, sy'n darparu addysg i blant ag AAA na allant gael eu haddysgu'n foddhaol mewn ysgolion prif ffrwd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Newidiadau i ddata anghenion addysgol arbennig yn dilyn Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**Daeth Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (y Cod ADY) a rheoliadau** i rym ar 1 Medi 2021 i sicrhau bod plant a phobl ifanc 0 i 25 oed yn gallu cael mynediad at gymorth ychwanegol i ddiwallu eu hanghenion sydd wedi'i gynllunio'n briodol a'i ddiogelu, gyda dysgwyr wrth galon y broses.

Mae datganiadau a chynlluniau fel cynlluniau addysg unigol (IEPs) a chynlluniau dysgu a sgiliau (LSP) yn cael eu disodli gan gynllun newydd o'r enw Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Ni fydd y termau a'r data ar 'Ddisgyblion â datganiadau', 'Gweithredu Ysgol a Mwy', a 'Gweithredu Ysgol' bellach yn cael eu defnyddio na'u casglu pan fydd y broses o bontio a gweithredu'r system ADY wedi'i chwblhau.

Mae plant yn symud o'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) i'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) mewn grwpiau dros bedair blynedd, er mwyn sicrhau digon o amser i feithrinfeydd, ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol drafod y cymorth sydd ei angen ac i baratoi cynlluniau.

Yn ystod y cyfnod pontio, caiff plant a phobl ifanc eu hadrodd mewn un o bedwar categori tra bod y ddwy system yn rhedeg ochr yn ochr.

## Cynlluniau Datblygu Unigol

Mae Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) yn gynlluniau statudol a grëwyd o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u darganfod ag anghenion dysgu ychwanegol. Gall dysgwr fod ag CDU a gynhelir mewn ysgol neu CDU a gynhelir gan awdurdod lleol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Disgyblion â datganiadau

Disgyblion lle mae'r awdurdod yn cynnal datganiad o anghenion addysgol arbennig o dan Ran IV o Ddeddf Addysg 1996. Gall datganiad fod wedi'i gyhoeddi yn flaenorol gan yr awdurdod lleol ar ôl asesu anghenion plentyn.

### Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy

Pan mae’r athro dosbarth neu bwnc a’r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig yn derbyn cyngor neu gefnogaeth gan arbenigwyr o’r tu allan, fel bod ymyriadau amgen sy’n ychwanegol neu’n wahanol i’r rhai a ddarparwyd i’r disgybl trwy ‘Weithredu gan yr Ysgol’ yn bodoli. Mae’r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig yn arwain fel arfer, er cyfrifoldeb yr athro dosbarth neu bwnc yw’r ddarpariaeth dydd i ddydd.

### Gweithredu gan yr Ysgol

Pan mae athro dosbarth neu bwnc yn nodi bod y disgybl ag anghenion addysgol arbennig ac yn darparu ymyriad sy’n ychwanegol neu’n wahanol i’r rhai a ddarparwyd fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol.

## Prydau ysgol am ddim

Mae disgyblion yn gymwys i gael **prydau ysgol am ddim** os yw eu rhieni neu warcheidwaid yn derbyn budd-daliadau prawf modd penodol neu daliadau cymorth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion cynradd

Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, **bydd holl blant ysgol gynradd Cymru yn cael prydau ysgol am ddim erbyn 2024**. Dechreuodd y broses gyflwyno ym mis Medi 2022 gyda'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu prydau ysgol am ddim i blant oed Derbyn o'r dechrau tymor yr hydref (Medi 2022) ac ymestyn y cynnig i flynyddoedd 1 a 2 heb fod yn hwyrach na dechrau tymor yr haf (Ebrill 2023).

Er bod y broses hon o gyflwyno prydau ysgol am ddim i'r rhai nad oeddent yn gymwys i'w cael o'r blaen wedi dechrau, nid yw'r data a gyflwynir yn y datganiad hwn yn adlewyrchu cyfanswm nifer y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim ym mis Ionawr 2023. Yn hytrach, mae ond yn cynnwys nifer y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim os yw eu rhieni neu warcheidwaid yn derbyn budd-daliadau penodol (fel yr adroddwyd mewn blynyddoedd blaenorol). Gweler y **canllaw gwybodaeth prydau ysgol am ddim** am fanylion llawn y meini prawf cymhwysedd a'r buddion.

## Gwarchodaeth drosiannol ar gyfer prydau ysgol am ddim

Ar 1 Ebrill 2019 cyflwynodd Llywodraeth Cymru polisi gwarchodaeth drosiannol newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Daethpwyd â hyn i mewn i sicrhau bod prydau ysgol am ddim y disgyblion yn cael eu gwarchod yn ystod y cyfnod cyflwyno Credyd Cynhwysol.

Mae'r warchodaeth hon yn berthnasol i ddisgyblion unigol a bydd yn parhau tan ddiwedd eu cyfnod ysgol bresennol, sef diwedd ysgol gynradd neu ddiwedd ysgol gynradd.

Dylai unrhyw ddisgybl a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim wrth gyflwyno'r polisi ar 1 Ebrill 2019 hefyd gael gwarchodaeth drosiannol. Yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ogystal, dylid gwarchod unrhyw ddisgybl sydd wedi dod yn gymwys ar unrhyw adeg yn ystod y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol o dan y meini prawf cymhwysedd newydd.

Mae'r dadansoddiad FSM yn y datganiad hwn yn cynnwys disgyblion sy'n gymwys drwy'r meini prawf prawf modd yn unig. Nid yw'r rhai sy'n gymwys drwy TP neu UPFSM wedi'u cynnwys.

### Mathau o Absenoldeb

Mae pob absenoldeb (neu absenoldebau 'cyffredinol') yn cynnwys y rheini sydd wedi'u hawdurdodi a'r rheini sydd heb eu hawdurdodi:

- absenoldeb a ganiatawyd gan athro neu gynrychiolydd awdurdodedig arall o'r ysgol yw absenoldeb a awdurdodwyd. Mae hyn yn cynnwys absenoldebau y rhoddwyd esboniad boddhaol drosto (ee salwch, profedigaeth deuluol neu achlysur crefyddol).
- absenoldeb na chaniatawyd gan athro neu gynrychiolydd awdurdodedig o'r ysgol yw absenoldeb anawdurdodedig. Mae hyn yn cynnwys pob absenoldeb na roddwyd esboniad neu gyfiawnhad drosto.

Lle bydd disgyblion yn dilyn gweithgareddau addysgol sydd wedi'u cymeradwyo ac sy'n cael eu goruchwylio ar safle arall (ee profiad gwaith neu ymweliadau addysgol), ystyrir eu bod yn bresennol yn yr ysgol.

## Ffynonellau data swyddogol ar bresenoldeb mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru

Cyn pandemig y COVID-19 gwnaethom gasglu a chyhoeddi data presenoldeb yn flynyddol. Casglwyd y set ddata flynyddol hon yn unol â'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau** ac fe'i dynodir yn Ystadegau Gwladol. **Fel arfer**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**cyhoeddwyd absenoldebau o ysgolion gynradd** ym mis Awst, **absenoldeb o ysgolion cynradd** ym mis Rhagfyr a dilynodd bwletin ychwanegol ar **absenoldeb gan ysgolion yn ôl nodweddion disgyblion** ym mis Chwefror.

Cafodd y casgliadau data sy'n sail i'r datganiadau hyn eu hatal ar ddechrau pandemig y COVID-19 ym mis Mawrth 2020. Nid oes data o'r casgliadau hyn ar gyfer blynyddoedd ysgol 2019/20, 2020/21 na 2021/22. Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno'r canlyniadau o ailddechrau'r casgliadau blynyddol hyn o flwyddyn ysgol 2022/23 ymlaen.

Er mwyn llywio ein hymateb polisi i'r pandemig COVID-19, dechreuom gasglu gwybodaeth reoli ddyddiol am bresenoldeb mewn ysgolion o fis Medi 2020 ymlaen. Mae'r data hwn yn cael ei dynnu'n uniongyrchol o systemau gwybodaeth rheoli ysgolion ac nid yw'n cael ei ddilysu na'i ddilysu mewn unrhyw ffordd gyda'r ysgolion ac nid yw'r data bob amser ar gael ar gyfer pob ysgol bob dydd. Nid yw'n Ystadegau Gwladol ac mae o ansawdd is na'r data blynyddol a gyflwynir yn y datganiad hwn. Fodd bynnag, mae'n ddefnyddiol edrych ar lefelau cyffredinol o absenoldeb a thueddiadau ar lefel Cymru ac edrych ar batrymau rhwng disgyblion â nodweddion gwahanol e.e. prydau ysgol am ddim.
Mae **presenoldeb mewn ysgolion a gynhelir** wedi cael ei gyhoeddi'n wythnosol ers mis Medi 2020.

## Gwahaniaethau prif yn y data a gasglwyd ar bresenoldeb ysgol cyn ac yn ystod pandemig y COVID-19

Ym mis Hydref 2022 cyhoeddwyd datganiad cryno ar **bresenoldeb cyn ac yn ystod y pandemig**. Roedd hyn yn edrych ar y gwahaniaethau prif rhwng y casgliadau data blynyddol ac wythnosol ac mae gwybodaeth fanwl am y gwahaniaethau hynny iw gweld yn y datganiad hwnnw.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Data presenoldeb ar gyfer blwyddyn ysgol 2022/23

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys data presenoldeb sicr o ansawdd llawn i safonau Ystadegau Gwladol ar gyfer ysgolion gynradd ar gyfer blwyddyn ysgol 2022/23.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi datganiad wythnosol o'r wybodaeth reoli yn ystod blwyddyn ysgol 2022/23 gan arwain at orgyffwrdd yn y cyfnod amser a gwmpesir gan y ddau gasgliad. Ein cyngor yw y dylai defnyddwyr ddefnyddio'r data yn y datganiad hwn cyn belled ag y bo modd a dim ond cyfeirio at y data yn y datganiad wythnosol os na ellir dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen neu ei chynhyrchu o'r set ddata flynyddol hon.

### Tabl 1: Cymharu data presenoldeb blynyddol a gwybodaeth reoli wythnosol ar gyfer ysgolion gynradd ym mlwyddyn ysgol 2022/23

| Grŵp blwyddyn | Data blynyddol | Gwybodeath reoli wythnosol [Nodyn 1] | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| **1** | 90.8 | 90.8 | 0.1 |
| **2** | 91.6 | 91.5 | 0.1 |
| **3** | 91.8 | 91.7 | 0.1 |
| **4** | 91.8 | 91.7 | 0.1 |
| **5** | 91.7 | 91.6 | 0.1 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Grŵp blwyddyn | Data blynyddol | Gwybodeath reoli wythnosol [Nodyn 1] | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| **6** | 91.4 | 91.3 | 0.1 |

Ffynhonnell: Casgliad Data Presenoldeb: Gynradd 2022/23, Data Presenoldeb - Gwybodaeth Reoli

[Nodyn 1] Mae’r data o’r datganiad a gyhoeddwyd ar 2 Awst 2023

Mae'r tabl yn dangos presenoldeb cyffredinol ar gyfer ysgolion gynradd fesul grŵp blwyddyn rhwng Medi 2022 a Mai 2023. Mae'n dangos bod y casgliadau blynyddol ac wythnosol yn cynhyrchu canlyniadau cyson dros pob grŵp blwyddyn.

Mae'r tabl uchod yn cadarnhau, ar lefel Cymru, bod y ddau gasgliad ar gyfer 2022/23 yn cynhyrchu canlyniadau cyson a chymaradwy. Fodd bynnag, mae'n debygol, oherwydd y ffordd y mae'r data wythnosol yn cael eu casglu a'r diffyg dilysiad y byddai gwahaniaethau mwy a mwy arwyddocaol o dan lefel Cymru.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae **Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig** wedi dynodi’r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy’n golygu eu bod yn cydymffurfio â’r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â’r safonau uchaf o ddibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd o’r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan fraich rheoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae’r Awdurdod yn ystyried os ydy’r ystadegau yn cwrdd â’r safonau uchaf o gydymffurfiad â’r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ychwanegu i benderfyniadau a dadlau cyhoeddus. Cadarnhawyd dynodiad yr ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol ym mis Gorffennaf 2010 yn dilyn **asesiad llawn yn erbyn y Cod Ymarfer (Saesneg yn unig)**.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiad â’r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw’r ystadegau yma yn dal i gwrdd â’r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda’r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu ar unrhyw bryd pan mae’r safonau uchaf heb eu cynnal, a’i ddyfarnu unwaith eto pan mae’r safonau yn cael eu hadfer.

Mae’r adran hon yn rhoi crynodeb o’r wybodaeth am yr allbwn hwn o dan bum agwedd ar ansawdd: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymaroldeb.

## Perthnasedd

Defnyddir yr ystadegau hyn o fewn a thu allan i Lywodraeth Cymru. Dyma rai o’r prif ddefnyddwyr:

- gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil y Senedd
- aelodau Senedd Cymru
- polisï addysg o fewn Llywodraeth Cymru
- rhannau eraill o Lywodraeth Cymru
- Estyn
- y gymuned ymchwilio
- myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- dinasyddion unigol a chwmnïau preifat

Defnyddir yr ystadegau hyn mewn amryw ffyrdd. Dyma ychydig o enghreifftiau:

- cyngor i weinidogion
- llywio'r broses o wneud penderfyniadau polisi addysg yng Nghymru
- hysbysu Estyn yn ystod arolygiadau ysgolion
- parth addysg Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- cynorthwyo gydag ymchwil mewn cyrhaeddiad addysgol

## Cywirdeb

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod yr holl ddata'n cael ei ddilysu cyn cyhoeddi tablau. Caiff data eu casglu mewn ffurflen electronig a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy DEWi, system drosglwyddo data ar-lein ddiogel a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae camau amrywiol o ddilysu awtomataidd a gwirio synhwyrol yn cael eu cynnwys yn y broses i sicrhau ansawdd uchel o ddata.

Yn ogystal, anfonir tabl at bob awdurdod lleol sy'n cynnwys crynodeb o'r data ar gyfer eu holl ysgolion gynradd a gynhelir y gofynnir iddynt eu gwirio.

## Amseroldeb a phrydlondeb

Roedd DEWi ar gael i'w lanlwytho ffeiliau ar 24 Mai 2023, a gofynnwyd i ysgolion gynradd a chanol prif ffrwd gyflwyno data presenoldeb ar gyfer pob disgybl rhwng 5 a 15 oed ar gofrestr yr ysgol o ddechrau Medi 2022 tan ddiwedd Gŵyl Banc mis Mai 2023. Yna gofynnwyd i ysgolion ac awdurdodau lleol ddilysu eu data o fewn cyfnod dilysu.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Hygyrchedd ac eglurder

Mae'r Datganiad Cyntaf Ystadegol hwn wedi'i gyhoeddi ymlaen llaw ac yna ei gyhoeddi ar adran Ystadegau gwefan Llywodraeth Cymru. Bydd y data hefyd yn cael ei gyhoeddi ar **Fy Ysgol Leol**, gwefan sydd wedi'i chynllunio i agor mynediad at ddata'r ysgol i rieni a phawb arall sydd â diddordeb yn eu hysgol leol.

## Cysondeb a chydlyniant

Casglwyd data absenoldeb lefel disgyblion gan ysgolion gynradd a gynhelir am y tro cyntaf yn 2007/08. Nid yw'r diffiniadau a'r cyfrifiadau sy'n gysylltiedig â'r casgliad wedi newid, felly nid yw cymaroldeb dros amser wedi cael ei effeithio.

Dyma'r data diweddaraf sydd ar gael (I gyd yn Saesneg yn unig):

### Lloegr

**Statistics: pupil absence (GOV.UK)**

### Yr Alban

**Weekly school attendance (Scottish Government)**

### Gogledd Iwerddon

**Education statistics (Department of Education, Northern Ireland)**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Datganiad cydymffurfedd â'r Cod Ymarfer Ystadegau

Mae ein holl ystadegau yn cael eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn **Natganiad Cydymffurfiaeth** Llywodraeth Cymru.

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus yn y ffyrdd canlynol.

### Ymddiriedaeth

Mae'r ffigurau cyhoeddedig a ddarperir yn cael eu casglu gan ddadansoddwyr proffesiynol ac ystadegwyr sy'n gweithio o dan oruchwyliaeth Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr ystadegau, y data a'r deunydd esboniadol yn cael eu cyflwyno'n ddiduedd ac yn wrthrychol.

Mae'r data gweithredol sy'n sail i'r ystadegau hyn yn cynnwys data personol. Mae'r data hyn yn cael eu prosesu yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018. Rydym wedi rhoi proses lywodraethu drylwyr ar waith i sicrhau bod y data'n cael eu rheoli'n ddiogel a'u hadolygu cyn eu rhyddhau.

### Ansawdd

Mae'r data presenoldeb a nodweddion disgyblion yn y datganiad hwn yn tarddu o systemau gweithredol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda chyflenwyr systemau masnachol i sicrhau bod y data cywir yn cael ei ddarparu i ni a bod y dilysu adeg mynediad yn gynhwysfawr ac yn reddfol. Yn dilyn y dilysiad adeg mynediad caiff y data ei ddilysu mewn amser real wrth ei lanlwytho i ni sy'n cynnwys dilysiad traws-ysgol ychwanegol. Mae cam dilysu terfynol yn golygu cymeradwyo gan swyddogion awdurdodau lleol yn ystod cyfnod dilysu penodedig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Sicrheir ansawdd yr ystadegau hyn yn yr allbwn hwn cyn eu cyhoeddi, gan gynnwys dadansoddiad cwbl annibynnol gan ail ddadansoddwr cymwys. Cefnogir pob cam o gasglu, dilysu a chynhyrchu'r ystadegau hyn gan ystadegwyr proffesiynol o Grŵp Ystadegol y Llywodraeth.

Ystyrir bod y ffynonellau data hyn o ansawdd digonol i gefnogi'r dadansoddiad hwn.

## Gwerth

Mae cyfraddau presenoldeb uchel yn hanfodol i sicrhau bod ein disgyblion yn dysgu'n effeithiol. Mae ein tystiolaeth yn dweud wrthym fod cyfraddau presenoldeb wedi disgyn yn sylweddol yn ystod y pandemig COVID-19 ac nad ydynt wedi gwella i lefelau cyn-bandemig ers hynny. Er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau presenoldeb is hyn, mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi sefydlu **Tasglu Presenoldeb Cenedlaethol** i ddarparu cyfeiriad strategol i wella presenoldeb mewn ysgolion ac ymgysylltu â dysgwyr.

Bydd yr ystadegau yn y datganiad hwn yn cefnogi gwaith y tasglu ac yn hysbysu defnyddwyr am gyfraddau presenoldeb cyfredol a sut maent yn amrywio yn ôl nodweddion disgyblion. Mae'r ystadegau hyn yn ategu ystadegau swyddogol eraill ar **absenoldeb mewn ysgolion uwchradd** a'r wybodaeth reoli am **bresenoldeb mewn ysgolion a gynhelir** a gyhoeddir yn wythnosol.

Mae'r ffigurau wedi'u cyhoeddi mewn fformat ODS hygyrch y gellir ei rannu a'i ailddefnyddio'n eang ac sy'n cydymffurfio â chanllawiau **Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth ar Ryddhau ystadegau mewn taenlenni** (Saesneg yn unig). Cyflwynir data'n glir ym mhob tabl, ac mae'r daenlen hefyd yn cynnwys dalen flaen sy'n rhestru pob tabl. Mae'r sylwebaeth a nodiadau yn y datganiad wedi'u datblygu i geisio gwneud y wybodaeth mor hygyrch â phosibl i'r ystod ehangaf o ddefnyddwyr.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Deddf Allegiant Cenedlaethau’r Dyfodol (WFG)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Mae’r rhain er mwyn sicrhau Cymru sy’n fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iachach a chyfrifol yn fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o’r Ddeddf, mae’n rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol”) sy’n rhaid eu defnyddio ar gyfer mesur cynnydd tuag at gyflawni’r nodau Llesiant, a (b) cyflwyno copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, lle mae Gweinidogion Cymru yn adolygu'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Cafodd y dangosyddion cenedlaethol hyn eu gosod gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a gyflwynwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r rhai a gyflwynwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai’r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu’r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â’u hasesiadau llesiant a’u cynlluniau llesiant lleol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Stephen Hughes
Ebost: **ystadegau.ysgolion@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR: 11/2024

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/absenoldebau-o-ysgolion-cynradd-medi-2022-i-awst-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.